30 Medi 2025

Annwyl Bennaeth

Mae'n bleser gennym eich hysbysu bod eich ysgol wedi cael ei dewis gan dîm Arlwyo eich Awdurdod Lleol i gymryd rhan yn y fenter Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion.

Menter genedlaethol sy'n cael ei chydlynu gan Synnwyr Bwyd Cymru yw Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion sy'n sicrhau bod mwy o lysiau o Gymru sydd wedi'u cynhyrchu'n organig yn cael eu cynnwys ym mhrydau ysgolion cynradd ledled Cymru.  Mae’r fenter hefyd yn sicrhau'r manteision canlynol:

- Gwella mynediad plant at fwyd iach, lleol
- Cefnogi i ffermwyr a thyfwyr Cymru
- Creu systemau bwyd lleol cryf a gwydn
- Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chynyddu bioamrywiaeth
- Lleihau dibyniaeth ar gynnyrch wedi'i fewnforio

Yn 2022, dim ond 6% o'r llysiau a brynwyd ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru oedd yn dod o ffynonellau lleol. Mae Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn helpu i newid hynny.

Mae'r hyn a ddechreuodd fel prosiect peilot bach yng Nghaerdydd dair blynedd yn ôl wedi tyfu'n fudiad ac yn 2024, fe wnaeth **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** weini 200,000 o ddognau o lysiau ffres, organig mewn mwy na 200 o ysgolion ledled Cymru.

Yn ystod tymor yr hydref 2025, bydd tua 400 o ysgolion ar draws 13 ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn cymryd rhan.  Rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm arlwyo yn ardal eich awdurdod lleol i gyfnewid rhai o'r llysiau confensiynol am gynnyrch organig sy'n cael ei dyfu'n lleol.  Mae rheolwyr arlwyo eich awdurdod lleol yn cysylltu â cheginau eich ysgolion ac yn ymwybodol, lle bo modd, y bydd eich cynnyrch confensiynol yn cael ei gyfnewid am lysiau lleol, organig.  Ni fydd unrhyw newid i gost y cynnyrch gan fod y gwahaniaeth mewn pris yn cael ei dalu gan y cynllun peilot **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**.

**Pwy sy'n elwa?**

- Plant oedran cynradd mewn ysgolion dethol ledled Cymru
- Ysgolion - a fydd nawr yn derbyn llysiau ffres, tymhorol fel moron, brocoli, tomatos, ciwcymbrau, a mwy
- Ffermwyr a thyfwyr sy'n cael marchnad sicr ar gyfer y cynnyrch
- Cymunedau - drwy greu swyddi, manteision amgylcheddol, a rhwydweithiau bwyd lleol cryfach

**Yr effaith hyd yn hyn**

Ers ei lansio yn 2022 gyda dim ond un tyfwr ac un dunnell o courgettes, mae'r prosiect wedi tyfu'n sylweddol:

- **2024**:
  - 14 tunnell o lysiau wedi'u dosbarthu
  - 200+ o ysgolion yn cymryd rhan
  - 200,000 o ddognau wedi'u gweini
  - 3 tunnell $CO2_2$ wedi'i arbed
  - cynnydd o 35% mewn bioamrywiaeth
  - 1.2 o swyddi amser llawn wedi'u creu
- **2025**:
  - 15 o dyfwyr yn cymryd rhan
  - 60 tunnell o lysiau = 1 miliwn o ddognau
  - 12 awdurdod lleol yn cymryd rhan

Gan edrych ymlaen at 2030, ein gweledigaeth yw y bydd 25% o holl lysiau ysgolion cynradd yn rhai lleol ac organig.

Rydym yn falch bod eich ysgol yn cymryd rhan yn y fenter hon ac rydym wedi creu rhywfaint o gynnwys a fydd yn eich helpu i egluro rôl eich ysgol yn y cynllun Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwybodaeth am gystadleuaeth poster y mae disgyblion o'ch ysgol yn gymwys i gymryd rhan ynddi
- Taflen PDF i'w dosbarthu i staff a rhieni
- Pecyn cymorth cyfathrebu sy'n cynnwys negeseuon ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, cynnwys ar gyfer cylchlythyrau, dolenni a lluniau

Byddwn hefyd mewn cysylltiad yn ystod y flwyddyn ysgol hon gyda newyddion am rai adnoddau ystafell ddosbarth ychwanegol.

Ein gobaith yw y bydd **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn dechrau newid y system fwyd leol yng Nghymru, gyda chyrff cyhoeddus yn prynu bwyd a dyfir yn lleol ac yn ei weini i'n plant. Rydym ni eisiau i bob plentyn yng Nghymru elwa o fwyta amrywiaeth o lysiau ffres o ansawdd da, wedi'u tyfu mewn ffordd sy'n dda i bobl a'r blaned.

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â ni drwy e-bost: foodsensewales@wales.nhs.uk

Cofion cynnes

Dr Amber Wheeler, Prif Ymchwilydd, Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion a thîm Synnwyr Bwyd Cymru